Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol y Llys
# Rhodfa'r Tywysog
# Prestatyn
# Sir Ddinbych
# LL19 8RW

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/02/2013**

## Cyd-destun

Ysgol ddynodedig Gymraeg, a gynhelir gan awdurdod addysg Sir Ddinbych, yw Ysgol y Llys.  Fe'i lleolir ym Mhrestatyn.  Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r dref a'r ardaloedd cyfagos.  Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r holl ystod gallu.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed.  Derbynnir plant i ddosbarth meithrin yr ysgol yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn i'r dosbarth derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair.  Addysgir yn bennaf yn y Gymraeg, ac yn ystod yr arolygiad, roedd 303 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.  Fe'u haddysgir gan ddeg o athrawon amser llawn a chwe athrawes ran amser.

Ystyrir rhan fwyaf y disgyblion a ddaw i'r ysgol fel rhai o gefndiroedd sydd heb fod yn ddifreintiedig nac ychwaith yn ffyniannus.  Mae tua 10% o'r disgyblion yn dod o ardal ddifreintiedig.  Tua 10% o'r disgyblion a ddaw o gartrefi lle siaredir y Gymraeg.  Ychydig iawn o blant o gefndir ethnig lleiafrifol sydd yn yr ysgol.

Mae'r ganran o ddisgyblion (10.5%) sydd â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Sir Ddinbych a Chymru.  Mae 55 (21%) o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol.  Mae'r ffigurau hyn yn agos i ganrannau'r sir a Chymru.

Mae'r pennaeth wedi bod yn y swydd ers Hydref 2007 a'r dirprwy yn y swydd ers Ionawr 2008.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Y Llys yn 2012-2013 yn £3,631.  Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych yw £9,659 a'r lleiafswm yw £3,064.  Mae Ysgol Y Llys yn 42fed allan o'r 52 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad Ysgol y Llys yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni'n dda;
- ansawdd gwaith llafar y disgyblion yn y Gymraeg ar draws yr ysgol yn dda iawn o ystyried eu man cychwyn;
- lefelau presenoldeb ac ymddygiad yn uchel a bron bob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac awyddus i ddysgu;
- profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol ac addysgu effeithiol yn cymell bron bob un o'r disgyblion i ddysgu ac ymfalchïo yn eu Cymreictod;
- ethos teuluol, gofalgar a chroesawgar iawn lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus ac yn cael eu trin â pharch; a bod
- y cymorth a'r cyfarwyddyd rhagorol yn cyfrannu'n sylweddol at les disgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y dysgu.

## Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda gan oherwydd bod:

- y pennaeth â gweledigaeth glir yn seiliedig ar hybu Cymreictod a lles plant sydd wedi cael ei chyfleu'n llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr;
- pob aelod o staff yn gweithio fel tîm ac yn deall eu rôl wrth weithredu cynlluniau'r ysgol;
- trefniadau hunanarfarnu effeithiol yn adnabod  blaenoriaethau addas sy'n rhoi pwyslais clir ar godi safonau; a bod
- cydweithio effeithiol gydag ystod o bartneriaethau yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad disgyblion.

## Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau gweithgareddau dysgu fydd yn ymestyn disgyblion o bob gallu yn llawn

A3 Cysoni'r arfer asesu ar gyfer dysgu trwy sicrhau bod disgyblion yn cymryd rhan mwy gweithredol wrth arfarnu eu gwaith eu hunain a gosod targedau ar gyfer gwella

A4 Sicrhau bod trefniadau hunanarfarnu yn fwy dadansoddol mewn perthynas ag effeithiolrwydd systemau a strategaethau'r ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mewn gwersi a thros gyfnod mae rhan fwyaf disgyblion Ysgol Y Llys yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu a'u perfformiad blaenorol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn canolbwyntio'n dda, yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn sawl pwnc. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu medrau'n hyderus ar draws ystod o bynciau. Mae'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da iawn. Mewn rhai agweddau ar eu gwaith, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent.

Mae ansawdd gwaith llafar y disgyblion yn y Gymraeg ar draws yr ysgol yn dda iawn o ystyried eu man cychwyn. Mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud ar eu hathrawon ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn barod iawn i gynnig atebion a rhannu syniadau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn ac erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae ymatebion llawer ohonynt yn estynedig. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae medrau llafar Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn dda. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron bob un yn hyderus yn y ddwy iaith.

Mae bron pob un yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen Cymraeg, yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn datblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gynyddol hyderus a chywir gan ddefnyddio strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae llawer yn darllen ar goedd gyda mynegiant clir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod eang o destunau gyda rhuglder gan ymateb yn ystyrlon i'r testun. Defnyddiant eu medrau darllen yn effeithiol i gywain gwybodaeth a'i gyflwyno mewn modd diddorol. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau darllen Saesneg yn effeithiol ar draws ystod o bynciau. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau darllen Saesneg yn effeithiol i gywain gwybodaeth gan ddefnyddio eu medrau trawsieithu'n gelfydd i'w gyflwyno.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n ystyrlon ac yn annibynnol. Maent yn defnyddio geirfa addas a diddorol, gan ddechrau amrywio brawddegau ac atalnodi'n gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o wahanol ffurfiau o ysgrifennu ac yn defnyddio'r nodweddion hyn yn hyderus i sawl pwrpas. Mae gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn dangos safonau da o ran cywirdeb iaith yn y Gymraeg. Mae safon gwaith ysgrifenedig estynedig y goreuon o ansawdd uchel. Er hyn, anghyson yw'r enghreifftiau o waith estynedig ar draws y cwricwlwm. Mae ansawdd gwaith ysgrifenedig rhan fwyaf y disgyblion yn Saesneg yn dda.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen roedd canran y disgyblion saith mlwydd oed a gyflawnodd ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu uwch yn 2012 yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan a gyda'r uchaf yn y teulu o ysgolion tebyg. Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r disgwyl (deilliant 6) hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan a'r uchaf yn y teulu. Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r disgwyl ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012, roedd perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan a gyda'r uchaf yn y teulu o ysgolion tebyg. Dros gyfnod o bedair blynedd mae wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru a heblaw am 2009-2010 mae hefyd wedi bod yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu. Yn gyffredinol, dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol wedi bod ymhlith y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl.

Yn gyffredinol, mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi bod yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru yn y pedwar pwnc craidd dros gyfnod o bedair blynedd.

Nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched, ac eithrio'r lefelau uwch yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2.

**Lles: Rhagorol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cefnogaeth o ansawdd uchel yn yr ysgol. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth ardderchog o bwysigrwydd bwyta'n iach ac o gadw'n heini.

Mae lefelau presenoldeb yn gyson uwch na chyfraddau'r teulu a Chymru ac ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl.

Mae safonau ymddygiad yn uchel iawn ac mae'r holl ddisgyblion ar draws yr ysgol yn foesgar a chwrtais. Maent yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion, ac yn gweithio'n hapus a chydwybodol iawn gyda'i gilydd o oedran ifanc. Ar draws yr ysgol mae lefelau diddordeb, brwdfrydedd ac ymroddiad bron pob un yn dda ac yn aml yn rhagorol. Mae'r ffordd y mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu'n ddeallus at yr hyn maent yn ei ddysgu ac yn trafod yn aeddfed sut i wella eu gwaith yn arbennig. Parhau i ddatblygu mae'r medrau hyn yng nghyfnod allweddol 2.

Mae aelodau'r Cyngor Ysgol a'r Grŵp Gwyrdd yn frwdfrydig iawn ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned yr ysgol. Mae'r disgyblion yn dangos balchder amlwg yn eu cyfraniad i sawl agwedd o ddatblygiad yr ysgol. Enghraifft arbennig o hyn yw eu rôl allweddol yn natblygiad y strategaeth gwrth fwlio a'u rhan flaengar ym mhenodiad y Swyddog Plant. Mae'r ffordd y mae'r Criw Caredig yn y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni eu cyfrifoldebau hefyd yn enghraifft ragorol o'r plant yn cymryd cyfrifoldeb yn llwyddiannus.

Trwy gymryd rhan yn frwdfrydig mewn sawl gweithgaredd cymunedol mae'r disgyblion yn datblygu'n aelodau cyflawn a chyfrifol o'u cymuned ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol a diddorol y tu mewn a thu allan i'r dosbarth sy'n diwallu anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen yn ardderchog ac yn ymateb i anghenion yr holl ddisgyblion yn effeithiol iawn. Agweddau arbennig o'r ddarpariaeth yw'r trefniant arloesol a wneir o rannu ardaloedd dysgu rhwng y tri dosbarth yn ogystal â'r defnydd blaengar a wneir o'r ardal allan gan gynnwys y goedwig sydd ar dir yr ysgol.

Mae cynllunio effeithiol ar draws yr ysgol ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg o safon uchel iawn. Trwy greu ethos hynod o gadarnhaol a hyrwyddo cyson yr holl staff, mae'r ddarpariaeth yn ennyn diddordeb a brwdfrydedd yr holl ddisgyblion tuag at yr iaith. Mae'r pwyslais cyson ac effeithiol ar sicrhau ansawdd uchel iawn iaith lafar y disgyblion yn nodwedd gref o waith yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn rhagorol. Atgyfnerthir y profiadau gwerthfawr yn effeithiol iawn gan arddangosfeydd lliwgar a symbylus sy'n ysgogi'r disgyblion i wybod mwy am Gymru heddiw yn ogystal â'i hetifeddiaeth a'i hanes.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang a diddorol o weithgareddau i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o faterion cynaliadwyedd. Rhoddir cyfleoedd da iawn i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ac ehangu eu gwybodaeth o rannau eraill o'r byd a diwylliannau eraill. Mae'r cysylltiadau amrywiol ag ysgolion Ewropeaidd eraill o dan gynllun Comenius, ynghyd ag ymwelwyr cyson o dramor, yn fodd effeithiol iawn o ehangu gorwelion y disgyblion a datblygu eu dealltwriaeth o wahaniaethau mewn diwylliannau ac arferion.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda gyda'r athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau i gyflwyno gwersi bywiog a diddorol. Mae gweithgareddau'n cael eu cynllunio'n fanwl a phwrpasol ac mae cyfleoedd i ddisgyblion drafod a mynegi barn. Caiff ystod eang o adnoddau dysgu eu defnyddio'n feddylgar er mwyn ennyn brwdfrydedd ac ysgogi dysgu. Ar draws yr ysgol, gwneir defnydd effeithiol o gwestiynu i ymestyn medrau meddwl disgyblion ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Yn yr ychydig wersi lle mae rhagoriaethau, rhoddir sylw canolog i ddatblygu'r medrau allweddol a gwneir defnydd effeithiol iawn o strategaethau meddwl. Yr yr ychydig wersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r deilliannau dysgu bob amser yn glir i'r disgyblion ac nid oes digon o her i'r disgyblion o allu uwch.

Ymhob dosbarth, mae perthynas glos rhwng oedolion a disgyblion ac anogir ymddygiad da iawn mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol. Mae staff cymorth yn cael eu defnyddio'n effeithiol i roi cynhaliaeth dda i ddisgyblion.

Mae trefniadau asesu yn y Cyfnod Sylfaen yn gadarn iawn a defnyddir y wybodaeth yn effeithiol i fwydo'r cynlluniau. Yng nghyfnod allweddol 2, defnyddir profion amrywiol yn effeithiol i dargedu ymyrraeth briodol i ddisgyblion sydd angen

cefnogaeth. Mae asesu ar gyfer dysgu wedi dechrau datblygu ond nid yw'r broses wedi llwyr ymsefydlu eto drwy'r ysgol. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n gyson, gan gynnig sylwadau adeiladol perthnasol. Nid yw rôl y disgyblion yn y broses o osod targedau a gwella eu gwaith wedi sefydlu'n gyson drwy'r ysgol.

Mae adroddiadau blynyddol disgyblion yn glir a defnyddiol a chânt eu gwerthfawrogi gan rieni.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae ansawdd y gofal, cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd bwyta'n iach a sut i fod yn ddiogel o ansawdd uchel iawn. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyson a niferus i ddisgyblion fod yn gorfforol iach ac i hybu ffitrwydd. Nodwedd arbennig o'r ddarpariaeth yw'r Grŵp Lles sy'n cynnig cefnogaeth ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion ac anghenion emosiynol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol iawn gyda nifer o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol sy'n sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel iawn i ddisgyblion a rhieni. Mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn hynod o effeithiol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y parch a ddangosant at ei gilydd ac oedolion. Mae perthnasoedd cadarnhaol yn arwain at ymddygiad da iawn gan yr holl ddisgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhagorol ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da iawn. Mae'r ysgol yn cydlynu ei hystod eang o ddarpariaeth yn ardderchog. Mae athrawon yn nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac yn monitro cynnydd disgyblion yn gyson ac yn effeithiol iawn. Mae staff a'r cydlynydd yn sicrhau bod cynlluniau addysg unigol yn fanwl a thrylwyr ac yn cynnwys barn y rhieni. Mae'r modd y mae'r ysgol yn trefnu hyfforddiant i aelodau o'r staff a'r ddarpariaeth sy'n deillio ohono yn rhagorol.

### Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol

Nodwedd eithriadol o'r ysgol yw'r ethos teuluol sy'n bodoli. Mae'n gymuned gynhwysol a gofalgar iawn lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel a chydweithiant yn effeithiol iawn gyda'i gilydd a chydag oedolion. Nodwedd arbennig yr ysgol yw balchder y staff a'r disgyblion yn eu Cymreictod.

Rhoddir pwyslais amlwg ar sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i gwricwlwm eang i'r holl ddisgyblion. Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol trwy waith amrywiol yn astudio gwledydd tramor.

Mae'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau, ac ar draws yr ysgol, yn adlewyrchu gwaith y disgyblion a gweithgareddau ehangach yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o adnoddau dysgu sy'n gweddu'n dda i anghenion a diddordebau disgyblion. Mae'r holl adnoddau yn cael eu defnyddio'n bwrpasol iawn er mwyn cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu gan gynnwys buddsoddiad sylweddol mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae ansawdd y safle'n dda iawn. Caiff ei gynnal yn dda ac mae'n cynnig amgylchedd ysgogol sy'n hyrwyddo dysgu llwyddiannus. Mae'r mannau dysgu yn yr awyr agored wedi cael eu datblygu mewn modd arloesol i wneud defnydd effeithiol iawn o'r lle sydd ar gael ac i wella profiadau dysgu a chwarae.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar hybu Cymreictod ac ar sicrhau safonau uchel a lles plant. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae'n arwain holl staff yr ysgol yn effeithiol ac wedi ail strwythuro'r uwch-dîm rheoli yn llwyddiannus er mwyn sicrhau arweinyddiaeth gyson i'r pedwar uned. O ganlyniad, mae hyn wedi cryfhau'r ymdeimlad o weithio fel tîm, ac mae'r cynllunio strategol yn ffocysu'n fwy penodol ar wella ansawdd y ddarpariaeth ac ar godi safonau.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, ac yn chwarae rôl briodol yn rheoli perfformiad y pennaeth. Datblygant ddealltwriaeth gynyddol o ddata perfformiad, er mwyn adnabod cryfderau ac ardaloedd i wella. Mae rôl y corff fel cyfaill beirniadol yn datblygu'n dda.

Rhoddir sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i sefydlu'n llwyddiannus iawn. Cafodd medrau darllen Cymraeg eu targedu'n ddiweddar gan arwain at gynnydd arwyddocaol yn y safonau. Mae'r ysgol wedi gwella ei darpariaeth lles drwy ffurfio grŵp lles ar gyfer yr ychydig ddisgyblion hynny y mae problemau ymddygiad ac emosiynol ganddynt.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae ysgol yn adnabod ei chryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella yn dda. Mae'r uwch dim rheoli yn dadansoddi data perfformiad yn fanwl er mwyn adnabod y disgyblion sy'n tangyflawni a'r rhai mwy abl a thalentog. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i sicrhau cefnogaeth briodol iddynt. Mae'r cydlynwyr pwnc yn cyfrannu'n effeithiol tuag at y broses trwy greu adroddiadau cynhwysfawr am ansawdd y ddarpariaeth yn eu pynciau. Mae trefniadau priodol ar gyfer ystyried barn rhieni a disgyblion. Mae hyn oll, ynghyd ag arsylwi gwersi, yn cyfrannu'n effeithiol at yr adroddiad hunanarfarnu sy'n cynnig darlun cytbwys a chywir o'r ysgol. Er hyn, nid yw bob amser yn ddigon dadansoddol mewn perthynas ag effeithiolrwydd systemau a strategaethau'r ysgol.

Mae'r athrawon yn trafod holl ddeilliannau'r broses hunanarfarnu yn drylwyr er mwyn blaenoriaethu yr anghenion gwella. Mae cyswllt clir rhwng y blaenoriaethau yma a'r targedau sydd yn y cynllun datblygu ysgol. Er bod nifer sylweddol o flaenoriaethau, rhoddir y pwyslais mwyaf ar y rhai sydd yn ymwneud â chodi safonau.

Mae'r rhwydweithiau o arfer broffesiynol o fewn yr ysgol, yn ogystal â'r cysylltiadau sydd wedi eu creu gydag ysgolion eraill, yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at ddatblygu'r ddarpariaeth a chodi safonau ymhellach. Mae'r ysgol wedi elwa o

gymuned ddysgu broffesiynol yn cynnwys athrawon y Cyfnod Sylfaen gydag athrawon o ysgol gynradd arall a'r ysgol uwchradd. Mae effaith y gwaith i ddatblygu strategaethau gloywi patrymau iaith yn y Gymraeg i'w gweld yn glir yn safon uchel iaith lafar y disgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn chwarae rhan flaengar mewn fforwm arloesol chwe ysgol benodedig Gymraeg sy'n ysgogi newid yng nghynllunio'r cwricwlwm a rhannu arbenigedd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae perthynas gadarn a chydweithiol rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae ansawdd y cyfathrebu ar y nosweithiau gwybodaeth yn galluogi'r rhieni i chwarae rhan weithredol yn addysg eu plant.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda'r Cylch Meithrin sydd ar y safle ac mae hyn yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n fuan yn yr ysgol. Mae'r trefniadau trosglwyddo disgyblion i'r ysgol uwchradd yn gymwys ac yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion y dalgylch, sydd yn arwain at gyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae cyd safoni a chymedroli wedi grymuso'r gwaith asesu yn effeithiol.

Mae perthynas dda gydag asiantaethau allanol a'r awdurdod lleol. Enghraifft dda o hyn yw'r gwersi Cymraeg i oedolion sy'n cael eu cynnig yn wythnosol yn yr ysgol.

Mae partneriaeth gref gyda'r gymuned leol. Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â'r nifer helaeth o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu. Mae hefyd yn hyrwyddo'n effeithiol eu hymdeimlad o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu Cymreictod.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Mae digon o staff addysgu a staff cynorthwyol profiadol i ymdrin â phob agwedd o waith yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu athrawon wedi'i threfnu'n dda, ac mae'r athrawon yn defnyddio'r cyfleoedd hyn yn effeithiol. Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff.

Mae digon o adnoddau o ansawdd da ar gyfer diwallu anghenion y disgyblion ac mae'r adeilad a'r tir yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial.

Mae gwariant yr ysgol yn cael ei gynllunio'n ofalus yn ôl blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn effeithiol.

O ystyried y deilliannau da sydd yn yr ysgol, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Roedd canran y disgyblion saith mlwydd oed a gyflawnodd ddangosydd y Cyfnod Sylfaen (canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol) mewn cyfuniad yn 2012 yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan a gyda'r uchaf yn y teulu o ysgolion tebyg. Roedd perfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl ymhlith y 50% uchaf yng Nghymru.

Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r disgwyl (deilliant 6) neu uwch hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan a'r uchaf yn y teulu. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd canran y disgyblion gyflawnodd yn uwch na'r disgwyl ymhlith y 25% uchaf mewn medrau iaith a datblygiad personol a chymdeithasol.

Yn gyffredinol, cyflawnodd merched yn well na bechgyn heblaw yn eu datblygiad mathemategol lle cyflawnodd mwy o fechgyn y deilliant uwch. Nid yw'r bwlch yn arwyddocaol.

Gan mae hon yw'r flwyddyn gyntaf i gyhoeddi data Cyfnod Sylfaen, nid oes gwybodaeth am dueddiadau ar gael.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012, roedd perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 mewn cyfuniad o'r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan a gyda'r uchaf yn y teulu o ysgolion tebyg. Dros gyfnod o bedair blynedd, mae wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru. Heblaw am 2009/10, mae hefyd wedi bod yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 50% uchaf yn 2012. Roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 50% uchaf mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg a mathemateg yn uwch na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru. Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig mewn gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ond yn is na chyfartaleddau'r teulu. Roedd cyfartaledd y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan. Yn gyffredinol, dros gyfnod mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig yn y pedwar pwnc wedi bod yn agos i neu'n uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio yn ystod y cyfnod. Roedd ymhlith y 50% uchaf mewn dwy o'r blynyddoedd hyn.

Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg mewn cyfuniad yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru dros gyfnod o bedair blynedd.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru yn y pedwar pwnc craidd.  Dros gyfnod o bedair blynedd, heblaw am Saesneg yn 2008-2009 a 2010-2011 a gwyddoniaeth yn 2008-2009, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch wedi bod yn is na ffigurau'r teulu o ysgolion a Chymru.

Yn gyffredinol, dros gyfnod o bedair blynedd, mae merched yn cyflawni'n well na bechgyn.  Nid yw'r bwlch yn arwyddocaol heblaw yn y Gymraeg lle mae bwlch sylweddol rhwng perfformiad bechgyn a merched yn 2012.

Er bod perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim yn is na'r gweddill dros gyfnod, nid yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 61 o holiaduron wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr.  Mae'r ymatebion yn rhoi darlun cadarnhaol sydd o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd ar gyfer pob agwedd.

Nododd bron pob un o'r rhieni eu bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol a bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol.  Mae bron pob un yn cytuno bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol a'r rhan fwyaf yn dweud bod cymorth ychwanegol priodol ar gael yn ôl yr angen.  Mae'r holl rieni yn cytuno bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.  Maent i gyd hefyd yn cytuno bod staff yn disgwyl eu plentyn i weithio'n galed ac i wneud ei orau. Maent oll o'r farn bod amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys teithiau ac ymweliadau.  Mae bron pob un yn cytuno bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn yr ysgol.  Mae'r rhan fwyaf yn cytuno eu bod eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn.

Mae rhan fwyaf y rhieni yn cytuno'n bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â chodi unrhyw fater.  Mae bron pob un yn deall trefn yr ysgol ar gyfer cwyno.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan 126 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2.  Mae'r ymatebion yn gadarnhaol ac o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau.

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bron pob un yn gwybod at bwy i droi yn achos gofid neu i holi am gyngor.  Mae bron pob un yn dweud eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.  Mae bron pob un hefyd yn cytuno bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a bod llawer o gyfleoedd i ymarfer corff yn rheolaidd.  Mae bron pob un yn dweud bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron ar eu cyfer a bod gwaith cartref yn

eu helpu i ddeall a gwneud eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn dweud bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Er hyn, nid yw lleiafrif yn cytuno bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith sydd ychydig yn uwch na'r canran cenedlaethol.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Rhiannon Harris | Arolygydd Tîm |
| Eirian Youngman | Arolygydd Lleyg |
| Siwan Tecwyn Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dyfan Phillips | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

## Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

## Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

## Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.